# Go Swansea

http://www.geocities.com/goswanseaweb/

## Beth ye Go?

Gêm bwrdd ar gyfer dau berson yw Go. Gyda dros 30 miliwn o chwaraewyr ar draws y byd, gyda'i wreiddiau yn Asia mor gynnar a 2000cc, hwn yw'r gêm bwrdd hynaf a'r mwyaf poblogaidd.
Mae'r rheolau yn syml iawn ac fe fedrwch eu ddysgu mewn munudau, ond y mae'r gêm yn un amlhaenog, ac wedi ei gyd-bwyso'n berffaith, fel bod pobl yn ddigon hapus i dreulio'u bywydau yn darganfod y cyfrinachau.

## Chwarae'r Gêm

Mae'r ddau chwaraewr, gwyn a du, yn wynebu ei gilydd dros grid gwag. Mant yn gosod cerrig ar y bwrdd am yn ail, y ddau yn ceisio gwasgaru a rheoli ardal ehangach, gan osgoi bod yn rhy wan ac agored i ymosodiadau. Wrth i'r gêm fyn yn ei flaen, mae gwyn a du yn ffurfio ardaloedd o reolaeth ar draws y bwrdd.
Creir patrymau hardd o ganlyiad i'r cymryd a rhoi, ymosod ac amddiffyn. Newida'r cydbwysedd yn gyflym, wrth i ardaloedd sydd heb eu cymryd neu sydd â diffyg yn yr amddiffyn, gael eu hawlio gan y chwaraewyr.
Unwaith fod yr ardaloedd yma wedi rhedeg allan,mae'r gêm drosodd a'r enillydd yw'r chwaraewr sy'n rheoli y mwyafrif o'r bwrdd. Mae'r patrwm sydd ar ôl yn dangos canlyniadau cyfarfod dau feddwl, record gweladwy o sgwrs sydd uwchlaw iaith.

## Mor heriol ag y dymunwch

O dan symylrwydd y rheolau, mae Go yn gallu ei chwarae ar unrhyw lefel y mae'r chearaewyr yn dymuno ei gyrraedd. Yn Siapan, Tseina a Corea, mae chwaraewyr proffesiynol yn rhoi eu gyrfa i astudio y chwarae. Ar gyfer chwaraewyr cyffredin, mae'r gem mor heriol ag y dymunir iddo fod.
Fel digwyddiad aml ymysg ffrindiau, cystadleuaeth, neu fel hobi hamdden yn achlysurol, mae Go yn llawn mwynhad pa mor ddifrifol bynnag yr ydych yn ei gymryd.

## Hawdd i'w ddysgu

Oherwydd fod y rheolau yn syml iawn, mae'r gêm yn hawdd i'w ddysgu, mae'n galluogi chwaraewyr o wahanol fedrau i gael gornest deg rhyngddynt: mae'r chwaraewr gwannaf yn chwarae gyda'r du felly gyda sawl symudiad yn ychwanegol ar ddechrau'r ornest. Mae chwarae ar fwrdd bach yn galluogi'r gêm i gael ei chwarae yn gyflym heb newid y rheolau, gan ganiatâu i'r dechreuwyr wella'n gyflym.

## Ymwelwch â ni

Mae chearaewyr Go yn dwli dysgu eraill am ei hoff gêm. Cysylltwch â ni I ddarganfod mwy am y gêm arbennig hwn, ac mi rydych yn siwr o ddod ar draws athrawon a gwrthwynebwy'r sy'n barod i'ch dysgu a'ch gwrthwynebu.

GoSwansea@gmx.net
http://www.geocities.com/goswanseaweb/

Rydym yn cyfarfod Dydd **Sul am 15:30 yn ardal dawel JC's**.

Mae rhan o'r ddogfen yn Hawlfraint 2002 Ben Finney.